Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Yr Adran Orthopteg

# Gosod clytiau ar gyfer Amblyopia Gwybodaeth i gleifion

---

**Beth yw Amblyopia?**
Cyflwr plentyndod sy'n digwydd pan na fydd y golwg mewn un llygad neu'r ddau lygad yn datblygu'n gywir yw Amblyopia, a elwir hefyd yn 'llygad diog'. Os bydd gan eich plentyn amblyopia mewn un llygad, bydd y golwg yn y llygad hwn yn niwlog a bydd yn dibynnu ar y llygad arall i weld.

**Beth sy'n achosi amblyopia?**
Mae Amblyopia'n digwydd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r llygad. Gall y canlynol achosi hyn:

- Llygad croes (tro yn y llygad).
- Presgripsiwn sbectol cryf yn un neu'r ddau lygad.
- Gwahaniaeth dirfawr yn y presgripsiwn sbectol rhwng y ddau lygad.
- Problem strwythurol yn y llygad, neu unrhyw beth s'n atal golau rhag cyrraedd cefn y llygad (retina).

**Sut mae trin amblyopia?**
Os na fydd eich plentyn yn gweld yn iawn, cynhelir prawf llygad ar gyfer sbectol ac archwilir cefn y llygaid i sicrhau eu bod yn iach. Awgrymir bod angen sbectol. Os bydd y golwg yn wan o hyd mewn un llygad gyda'r sbectol, gellir trin amblyopia gyda chlwt neu ddiferion Atropine.
I gael gwybodaeth am ddiferion llygaid Atropine fel triniaeth, gofynnwch i'r Orthoptydd am daflen 'Triniaeth Atropine ar gyfer Amblyopia'.

**Sut mae gosod clwt yn helpu golwg fy mhlentyn?**
Defnyddir y clwt i guddio'r llygad da i annog y llygad diog i weithio. Os bydd eich plentyn angen sbectol, gosodir y clwt bob amser pan fydd yn gwisgo ei sbectol.

**Beth ddylai fy mhlentyn ei wneud pan fydd yn gwisgo'r clwt?**
Byddwn yn argymell unrhyw weithgaredd sy'n annog defnyddio'r llygad; fel darllen, tynnu llun, lliwio, defnyddio'r cyfrifiadur ayyb.

Pan fydd eich plentyn yn dechrau gwisgo clwt, mae'n bosibl y bydd ychydig yn lletchwith a bydd angen ei oruchwylio. Dylai wella wrth i'r golwg wella.
Cofiwch wirio nad yw eich plentyn yn edrych ar ochr y clwt i ddefnyddio ei lygad da.

**Am ba hyd fydd angen clwt?**
Bydd hyn yn amrywio o blentyn i blentyn yn dibynnu ar oed a lefel y golwg.

Bydd yr Orthoptydd yn gweld eich plentyn yn rheolaidd i fonitro ei gynnydd/ chynnydd.  Bydd cynllun triniaeth yn cael ei greu i ateb anghenion gweld eich plentyn.

**Ydy defnyddio clytiau'n gweithio'n iawn?**
Gyda thriniaeth, gall golwg y llygad diog wella'n llwyr, yn rhannol neu weithiau nid oes llawer o welliant.  Mae'r rhan fwyaf o'r gwella'n digwydd o fewn y 150-250 awr gyntaf o wisgo'r clwt.
Mae'r system gweld yn datblygu hyd nes bod plentyn tua 7-8 mlwydd oed.  Ar ôl hyn, mae clytiau'n llai effeithlon.
Heb driniaeth, mae'n bosibl y bydd golwg y plentyn yn barhaol wan.    Ni ellir gwella hyn pan fydd yn hŷn.
Bydd y clwt yn gwella'r llygad croes.  Mae llygad croes yn cael ei drin gyda sbectol a/ neu lawfeddygaeth.

**Awgrymiadau**
- Annog a gwobrwyo.
- Gofyn am gymorth—teulu,
- ffrindiau, athrawon meithrinfa neu ysgol.
- Dyfalbarhad, er waethaf gwrthwynebiad.

**Sut galla i gael mwy o glytiau?**
Gall yr Orthoptydd roi mwy o glytiau yn ystod eich apwyntiad neu gellir eu postio atoch os byddwch chi wedi'u gorffen rhwng apwyntiadau.

**Mae'n hynod bwysig eich bod yn goruchwylio'r driniaeth hon yn ofalus.  Os na allwch chi fynychu eich apwyntiad, cofiwch roi gwybod i'r Ganolfan Apwyntiadau cynted ag sy'n bosibl.**

Cyfeirnod:  www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/
Chwiliwch am "Llygad Diog"

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**